TO THE

Men & Women OF NEWPORT.

Wyddech chi y cafodd 22 o ddynion eu saethu'n farw ar stryd yng Nghasnewydd yn 1839? Roeddent yn Siartwyr. Roeddent yn gwrthdystio dros ryddid a gymerwn yn ganiataol heddiw.

Roedd Siartiaeth yn fudiad cenedlaethol a geisiai wella amodau byw a gwaith pawb drwy Ddiwygio Seneddol.

Roedd "Siarter y Bobl" yn galw am chwe hawl:

- Pleidlais ddirgel
- Pleidleisiau i bob dyn dros 21 oed
- Cyflog i Aelodau Seneddol
- Etholaethau o'r un maint
- Dim cymhwyster eiddo ar gyfer Aelodau Seneddol
- Etholiadau Seneddol blynyddol

Mae stori Casnewydd yn dechrau yn 1839 pan gasglodd miloedd o weithwyr yng Nghymoedd De Cymru a gorymdeithio i Gasnewydd drwy noson oer a gwlyb ym mis Tachwedd. Mae union gymhellion yr orymdaith yn ddadleuol. Roedd rhai, yn cynnwys John Frost, yn protestio am anghyfiawnder ac yn gofyn am ryddhau cyd Siartwyr. Roedd eraill â'u bryd ar greu gwrthryfel.

Bydd y daflen yma yn eich helpu i ddarganfod mwy am Siartiaeth a cherdded yn ôl troed y Siartwyr ar 4 Tachwedd 1839.

I gael tro rhwydd lawr y bryn ewch ar y bws o'r Orsaf Bysus i Gadeirlan Casnewydd. Mae Bysus R1, 2C a 151 yn stopio tu allan i'r Gadeirlan.

gwefan: ourchartistheritage.co.uk

Cynhyrchwyd y daflen hon gan Ein Treftadaeth Siartwyr gyda chefnogaeth gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

EIN TREFTADAETH SIARTWYR

Supported by The National Lottery® through the Heritage Lottery Fund

Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri

Dylunio gan www.artmattersstudio.co.uk

CERDDED YN ÔL-TROED Y SIARTWYR



©Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd

Dewch i ddarganfod rhan Casnewydd yn y Prawf Teyrnfradwriaeth torfol olaf ym Mhrydain a'r rheswm pam fod y ddinas hon yn hawlio bod yn

"Casnewydd: Cartref y Bleidlais"

DINAS CASNEWYDD

HEN SWYDDFA'R POST

Ganwyd John Frost yma yn Stryd Thomas, sydd bellach wedi dymchwel. Caiff y safle ei nodi gyda phlac. Roedd siop ddillad John Frost ar y Stryd Fawr.

John Frost yn 1840

CERFLUNIAU'R SIARTWYR

Undeb, Darbodaeth ac Egni gan Christopher Kelly, codwyd yn 1991 i goffau Gwrthryfel y Siartwyr.

Cerfluniau'r Siartwyr © Hawlfraint y Goron (2016): Croeso Cymru

GWESTY'R WESTGATE

Adeiladwyd yn 1799 (ailadeiladwyd 1886), mae ar gyffordd Stow Hill a'r hen Stryd Fawr. Bu 22 o Siartwyr farw yma a chafodd llawer mwy eu hanafu yn eu brwydr dros gyfiawnder.

TŶ'R MAER

Roedd tŷ'r Maer, Thomas Phillips, ar waelod Stow Hill yn wynebu Gwesty'r Westgate ar y safle lle mae Coral Bookmakers yn awr.

Tŷ'r Maer drws nesaf i'r Westgate yn dilyn y Gwrthryfel © Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd

EGLWYS SANTES FAIR

Roedd yr eglwys yn cael ei hadeiladu ar y pryd a galwodd y gorymdeithwyr ar y gweithwyr i ymuno â nhw. Aeth rhai o'r Siartwyr drwy'r safle adeiladu i gefn Gwesty'r Westgate.

Llun artist o'r milwyr yn claddu'r Siartwyr.

MYNWENT CADEIRLAN CASNEWYDD

Cafodd deg Siartydd na wyddom eu henwau eu claddu yma yn Eglwys Gwynlliw Sant gan y milwyr ganol nos mewn beddau di-nod. Mae cofeb, a godwyd yn 1989, ar y prif lwybr i'r eglwys.

SGWÂR EGLWYS GWYNLLIW SANT

Pasiodd dros 3,000 o Siartwyr dan arweiniad John Frost a Zephaniah Williams y fan hon wrth iddynt fynd lawr Stow Hill.

TLOTY'R UNDEB

Roedd cwmni o 45fed Catrawd y Troed Filwyr yn aros yma. Anfonwyd 30 milwr, dan gyfarwyddyd yr Is-gapten Grey i fynd tu mewn i Westy'r Westgate yn gynnar ar fore 4 Tachwedd.

THE SIX BELLS

Wrth roi tystiolaeth yn Llys Ynadon Casnewydd, dywedodd Susan Stephens 18 oed iddi *"...weld y carcharor Lovell yn pasio ei thŷ yn Six Bells ar Stow Hill gyda thorf a dryll yn ei law."*

BYTHYNNOD GWREIDDIOL

Yr unig dystiolaeth ar Stow Hill o dai ar ôl o 1839.

SGWÂR JOHN FROST

Enwyd ar ôl arweinydd y Siartwyr. Yn 1839 roedd hyn yn ofod agored a elwid yn Cae'r Brodyr, lle cynhaliwyd cyfarfodydd y Siartwyr.

Darn Arian © Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd

AMGUEDDFA AC ORIEL GELF CASNEWYDD

Mae gan yr Amgueddfa arddangosiad cynhwysfawr am hanes Siartiaeth a'r digwyddiadau yng Nghasnewydd.

Arfau'r Siartwyr © Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd

TAFARN Y PARROT

Dyma le galwodd Frost gyfarfod ar 30 Hydref 1838 pan fabwysiadodd cynulleidfa o 400-500 o bobl **"Siarter y Bobl".**

Cerdyn Aelodaeth Cymdeithas Genedlaethol Siartwyr

TŶ'R BRODYR

Cyn gartref Thomas Protheroe oedd yng ngofal tir Syr Charles Morgan ym Mharc Tredegar.

Tŷ'r Brodyr

1 Tloty'r Undeb

Cadeirlan Casnewydd a Rhiw Stow © Hawlfraint y Goron (2016) Croeso Cymru

Safwch wrth glwydi ysbyty Gwynlliw Sant. Yn 1839 roedd yr adeilad carreg goch yn dloty newydd ei godi, y gobaith olaf ar gyfer pobl lleol ddiymgeledd a thlawd. Ar fore 4 Tachwedd roedd milwyr y 45fed Catrawd yn lletya yma ac ar ôl y gwrthryfel daethpwyd â'r rhai wedi anafu a charcharorion yma.

2 Tŷ'r Brodyr

Thomas Protheroe © Amgueddfa ac Oriel Casnewydd

Hyd 1831, dyma gartref Thomas Protheroe, Asiant Syr Charles Morgan o Barc Tredegar a Chlerc i Gyngor Casnewydd, dyn dylanwadol oedd hefyd yn "elyn" i John Frost. Erbyn Gwrthryfel y Siartwyr, roedd wedi symud i Gwrt Malpas ac roedd Tŷ'r Brodyr yn gartref Octavius Morgan, mab ieuengaf Syr Charles. Roedd ef i ffwrdd pan orymdeithiodd y Siartwyr heibio ond bu ganddo ran bwysig yn yr achos llys yn erbyn y Siartwyr ar ôl iddo ddychwelyd.

3 Mynwent Cadeirlan Casnewydd

Cadeirlan Casnewydd - © Hawlfraint y Goron (2016) Croeso Cymru

Sut fyddech chi'n teimlo pe byddai un o'ch teulu yn cael ei saethu'n farw gan awdurdodau a'u corff yn cael ei guddio yn y dirgel?

Digwyddodd hynny mewn gwirionedd. Rywle yn y fynwent yma mae olion 10 o Siartwyr, yn cynnwys George Shell, a saethwyd yn farw'r diwrnod ofnadwy hwnnw wrth ymladd dros gyfiawnder a'u rhyddid; eu cyrff wedi eu claddu gan filwyr mewn beddau di-nod ganol nos.

4 Sgwâr Gwynlliw Sant



Adran o'r gofrestr claddu

Beth fyddech chi'n ei wneud pe bai rhai o'ch ffrindiau wedi eu harestio dim ond am brotestio yn erbyn eu hamodau gwaith?

Roedd rhai Siartwyr wedi eu harestio ac yn cael eu cadw yng Ngwesty'r Westgate. Mae rhai haneswyr yn credu fod hynny'n fagl i ddenu'r Siartwyr i dorri'r gyfraith. Allwch chi ddychmygu John Frost yn gweiddi at y dorf enfawr?`

5 Tafarn Six Bells

Gorymdaith flynyddol y plant

Ymgasglodd y gorymdeithwyr yng Nghwrt y Bella, ar waelod Lôn Belle Vue ac yna symud i'r pwynt yma. Cafodd y llwybr i'r Tloty ei rwystro gan Gwnstabliaid Arbennig, a hefyd felly'r lôn i gartref Lewis Edwards, y Prif Ynad. Felly cawsant eu gorfodi ar hyd Stow Hill, rhan o Dafarn y Six Bells (bellach Tŷ'r Eglwys) gyda John Rees ('Jack the Fifer') a David Jones ('Dai the Tinker') yn arwain y ffordd.

Y dyddiau hyn, mae plant ysgol yn ymgasglu yma i ail-actio'r digwyddiadau ar ben-blwydd Gorymdaith y Siartwyr.

6 Bythynnod ar Stow Hill

Map degwm yn dangos y llwybr i lawr Stow Hill © Prosiect Cynefin / Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Gorymdeithiodd miloedd o Siartwyr heibio'r bythynnod yma - i lawr Stow Hill gan weiddi a chanu wrth iddynt fynd am Westy'r Westgate.

Yn 1839, nid oedd yn anarferol i nifer o deuluoedd fyw mewn un bwthyn bach. Roedd cyflogau'n isel, weithiau ni allai pobl fforddio tanwydd na bwyd, roedd plant yn gorfod gweithio i helpu dod â dau ben llinyn ynghyd. Roedd y Siartwyr eisiau bywyd gwell i bawb ac eisiau i'r Senedd gynrychioli gweithwyr yn well. Roeddent eisiau i bobl gyffredin fedru pleidleisio a hyd yn oed sefyll fel Aelodau Seneddol. Roeddent eisiau newid - ac roedd hynny'n fygythiad i rai.

7 Eglwys Santes Fair

Pan orymdeithiodd y Siartwyr heibio'r eglwys, roedd yn dal i gael ei hadeiladu gan weithwyr o Iwerddon. Gweiddodd y Siartwyr at y gweithwyr ar y waliau carreg i ymuno â nhw. Fe wnaeth rhai o'r gorymdeithwyr hyd yn oed geisio mynd i gefn Gwesty'r Westgate drwy fynd drwy'r safle adeiladu.

8 Tŷ'r Maer

Thomas Phillips © Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd

Beth fyddech chi wedi'i wneud pe baech yn Faer yn 1839?

Roedd y Maer a'r awdurdodau yn ofni chwyldro. Am 8.30pm ar 4 Tachwedd 1839, ymunodd 30 o filwyr arfog o'r 45fed Catrawd â Thomas Phillips y Maer a'i Gwnstabliaid arbennig. Aethant ati i aros tu ôl i gaeadau'r ffenestr.

9 Gwesty'r Westgate



Dreadful Riot
AND
LOSS OF LIFE AT NEWPORT!

Twenty Killed, and Fifty Wounded!

"Rhowch y carcharorion i ni!"
"Rhowch y carcharorion i ni!"
oedd gwaedd Siartwyr wrth iddynt gyrraedd Gwesty'r Westgate, canolbwynt y dref. Rhuthrodd y Siartwyr at y drws blaen oedd wedi'i amddiffyn gan Gwnstabliaid Arbennig. Taniwyd dryllau. Gwthiodd Siartwyr eu ffordd i'r adeilad. Agorodd caeadau'r ffenestri, symudodd y milwyr heibio'r ffenestr gan saethu dro ar ôl tro i'r dyrfa, a wnaeth ffoi yn eu panic.

Dim ond ugain munud y parhaodd y cythrwfl. Roedd y Siartwyr celain ac ar farw yn gorwedd yn y stryd a sŵn eu griddfan yn torri'r tawelwch. Roedd George Shell, 18 oed o Bont-y-pŵl, yn gorwedd yn marw yn y stryd ond ni chaniatawyd i neb fynd i'w helpu. Am 2 awr roedd yn gwaedu, gruddfan a marw. Defnyddiwyd llythyr a ysgrifennwyd gan Shell yn yr achos yn erbyn Zephaniah Williams i brofi fod y gwrthryfel wedi ei gynllunio.

"Dear Parents,
I hope this will find you as well, as I am myself at present. I shall this night be engaged in a struggle for freedom and should it please God to spare my life, I shall see you soon; but if not, grieve not for me, I shall fall in a noble cause. My tools are at Mr. Cecil's, and likewise my clothes. Yours truly,
George Shell"

Engrafiad Mulluck o'r Gwrthryfel © Amgueddfa ac Oriel Celf Casnewydd

10 Cerfluniau'r Siartwyr

Cofebau'r Siartwyr © Hawlfraint y Goron (2016) Croeso Cymru

Mae'r cerfluniau hyn yn nodi'r fan lle bu farw 22 o ddynion cyffredin yn ymgyrchu dros newid gwleidyddol a bywyd gwell. Wedi'i greu gan Christopher Kelly i goffau'r 150fed mlwyddiant, mae'r cerfluniau'n ffurfio tri grŵp, pob un yn cynrychioli agwedd wahanol o'r newid gwleidyddol a chymdeithasol a geisiai'r Siartwyr. '*Undeb*' yn dangos golygfa ddelfrydoldedig o Gasnewydd, '*Darbodaeth*' yn dangos y frwydr dros newid, '*Egni*' yn nodweddu'r llafur a hefyd fuddugoliaeth.

11 Man geni John Frost - Stryd Fawr

Cafodd John Frost, 1784-1877 (Maer Casnewydd 1836-7) ei eni yn y Royal Oak, Stryd Thomas (sydd bellach wedi'i ddymchwel). Mae plac coffa ar ochr Swyddfa'r Post lle mae'n ymuno â'r adeilad swyddfa newydd a maes parcio aml-lawr gyferbyn Gwesty'r Brenin. Roedd siop ddillad Frost ymhellach i lawr y Stryd Fawr.

Cofeb i'r Siartwyr y tu allan i'r Westgate. @ Hawlfraint y Goron Croeso Cymru

12 Tafarn y Parrott

Thomas Walker @ Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd

Yn ymyl Gwesty'r Westgate mae safle Tafarn y Parrot, lle cynhaliodd Frost gyfarfod ar 30 Hydref 1838 pan fabwysiadodd cynulleidfa o 400-500 o bobl **"Siarter y Bobl"**. Y landlord oedd Thomas Walker, oedd hefyd yn Gwnstabl Arbennig, cafodd ei anafu yn ystod yr orymdaith.

13 Sgwâr John Frost

Enwyd y sgwâr ar ôl John Frost, arweinydd lleol y Siartwyr. Bu'n breswylydd uchel ei barch o'r dref a bu'n ynad, cynghorydd a maer y dref 1836-37.

Er mai John Frost yn bendant oedd arweinydd lleol y Siartwyr, roedd yn amharod i arwain yr orymdaith ar Gasnewydd, yn ansicr mai dyma'r peth cywir i'w wneud. Cafodd ei arestio o fewn oriau o'r orymdaith a'i gyhuddo gyda theyrnfradwriaeth. Yn dilyn achos llys yn Nhrefynwy yn gynnar yn 1840 fe'i cafwyd yn euog a'i ddedfrydu i farwolaeth.

Ar ôl ymgyrch genedlaethol am drugaredd, cafodd ef a dau arweinydd arall (Zephaniah Williams a Wiliam Jones) eu halltudio i Van Diemens Land, cyn cael pardwn llawn yn 1856.

Mae'r cof am John Frost a'r Siartwyr yn parhau yn y parch a'r cariad y mae dinas Casnewydd yn ei ddangos atynt - mae newidiadau sylweddol yn Sgwâr John Frost a cyn hir bydd celfweithiau eraill yn ein hatgoffa am ran Casnewydd wrth sicrhau'r bleidlais ar gyfer pob dyn a menyw.

John Frost @ Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd

14 Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd

Mae arddangosiadau helaeth am y Siartwyr yn Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd, gan ddod â'r pwnc yn fyw ac yn ymchwilio cymeriadau ar y ddwy ochr. Mae drylliau cyfoes ac arfau eraill i'w gweld wrth ochr celfweithiau ac adroddiadau ysgrifenedig yn dangos effaith drychinebus 4 Tachwedd 1839 ar yr ardal ac ar yr holl wlad.

Mae'r Ganolfan Wybodaeth Leol yma a gallant gyfeirio ymwelwyr at safle eraill y Siartwyr Ffôn: 01633 656656

Arteffactau ac arddangosiadau © Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd